



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Y Prif Swyddog Cynllunio:
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
yng Nghymru

Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Department for Environment, Planning and Countryside

Swyddog y Parc Cenedlaethol:
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng
Nghymru

Eich cyf . Your ref:
Ein cyf . Our ref: APAA-08-10-072
Dyddiad . Date: 7 Mehefin 2006

Annwyl Gydweithiwr

CYMHWYSO'R DEDDFAU CYNLLUNIO I'R GORON

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Memorandwm sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn yn rhoi canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru am y newidiadau i'r system gynllunio yn sgil gweithredu Pennod 1 o Ran 7 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("Deddf 2004") a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig. Mae Rhan 7 yn cymhwyso'r Deddfau cynllunio i'r Goron, a fydd, yn gyffredinol, yn gorfod gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu mewn modd tebyg i ymgeiswyr eraill ar ôl heddiw.
2. Ceir trefniadau arbennig sy'n ymwneud yn bennaf â diogelwch ac amddiffyn y wlad, materion brys a gorfodaeth, ynghyd â hawliau datblygu newydd a ganiateir a dosbarthiadau defnydd.
3. Y Deddfau cynllunio (oll wedi'u diwygio) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (y "prif Ddeddf"), Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf adeiladau rhestredig") a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 ("Deddf sylweddau peryglus").
4. Mae Atodiad 1 i'r llythyr hwn yn cynnwys crynodeb o Bennod 1 o Ran 7 o Ddeddf 2004, ynghyd ag Atodlenni cysylltiedig 3 a 4. Mae Atodiad 2 yn atgynhyrchu'r Protocol Ffioedd ar gyfer ceisiadau brys i'r Goron.
5. Yn ogystal, cymeradwyir y llythyr hwn, ynghyd â'r holl Gylchlythyrau cynllunio perthnasol eraill sydd ar glawr, i holl gyrrff y Goron sy'n ymgymryd â datblygu. Yn benodol, dylai cyrrff y Goron nodi mewn trafodion cynllunio lle mae Cylchlythyr 23/93 y Swyddfa

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Gymreig *'Awards of Costs Incurred in Planning and Other (Including Compulsory Purchase Order) Proceedings'* yn berthnasol, y bydd y darpariaethau statudol ar gyfer dyfarnu costau i bartïon, neu yn eu herbyn, yn berthnasol i gyrff y Goron sy'n barti yn ogystal ag awdurdodau cynllunio lleol ac unrhyw bartïon eraill.

STAFFIO A GOBLYGIADAU ARIANNOL

6. Ni chaiff y camau a gymerir yn unol â'r llythyr a'r Memorandwm hyn effaith sylweddol ar wariant a lefelau staffio y llywodraeth ganolog na'r llywodraeth leol. Nod y system an-statudol o dan Gylchlythyr 37/84 y Swyddfa Gymreig yw dilyn y system rheoli datblygu statudol, gan gynnwys hysbysebu Hysbysiadau Datblygiad Arfaethedig a'u cofnodi yn y gofrestr gynllunio. Felly, ni ddylai'r broses o gynnwys y Goron yn y system statudol ychwanegu at lwyth gwaith yr awdurdodau cynllunio lleol. Bydd yn ofynnol i'r Goron dalu ffi er mwyn gwneud ceisiadau cynllunio, felly bydd yr awdurdodau cynllunio lleol yn derbyn incwm nad oeddent yn ei gael o'r blaen. Mae cost y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Goron eu talu i wneud ceisiadau cynllunio yn gyfran fach iawn o gostau'r cynllun.

DIDDYMIADAU

7. Mae'r canlynol wedi'u diddymu:-

- Cylchlythyr 37/84 y Swyddfa Gymreig *'Crown Land and Crown Development'*;
- paragraff 3 o Atodiad 4 (Application of costs Policy to Third Parties in Proceedings) i Gylchlythyr 23/93 y Swyddfa Gymreig *'Awards of Costs Incurred in Planning and Other (Including Compulsory Purchase Order) Proceedings'*;
- Atodiad 7 (Rheoli Datblygiad ar Dir y Goron) i Gylchlythyr 24/97 y Swyddfa Gymreig *'Enforcing Planning Control: Legislative Provisions and Procedural Requirements'*¹;
- paragraff 157 o Gylchlythyr 11/99 y Swyddfa Gymreig *'Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol'*; a
- pharagraffau 2.4 i 2.7 o ganllawiau Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn *Tree Preservation Orders: A Guide to the Law and Good Practice* (Mawrth 2000).

Yn gywir

Rosemary Thomas
Pennaeth yr Is-adran Gynllunio
Llywodraeth Cynulliad Cymru

¹ Disodlwyd Cylchlythyr 24/97 y Swyddfa Gymreig yn rhannol gan Gylchlythyr 08/2003 Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Gweithdrefnau ar gyfer Apeliadau Gorfodaeth*, ond ni aethpwyd ag Atodiad 7 rhagddo. Er gwaethaf effaith Cylchlythyr 08/2003 y Swyddfa Gymreig, mae'r canllawiau diweddaraf am hysbysiadau gorfodi arbennig o dan adrannau 294 a 295 o'r prif Ddeddf wedi bod yn Atodiad 7 i Gylchlythyr 24/97 y Swyddfa Gymreig.